arbed am byth
CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL ARBED

2020/2021



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair Gweinidogol | Tudalen 2 |
| Blwyddyn 3 Arbed | Tudalen 3 |
| Arbed a Covid 19 | Tudalen 5 |
| Prif Ganlyniadau | Tudalen 6 |
| Canlyniadau Allweddol | Tudalen 7 |
| Bandiau EPC | Tudalen 8 |
| Demograffeg 2020/2021 | Tudalen 9 |
| Buddiannau Cymunedol | Tudalennau 10 - 12 |
| Cyfryngau Cymdeithasol | Tudalen 13 |
| Astudiaethau Achos | Tudalennau 14 - 16 |

# RHAGAIR GWEINIDOGOL

Mae ein Rhaglen Cartrefi Cynnes yn cyfrannu i wella ansawdd tai yng Nghymru. Mae'n cefnogi pobl sy'n cael anhawster i dalu am gost eu hanghenion ynni tai, yn ogystal â chyfrannu at ein huchelgeisiau i leihau allyriadau carbon i'n hamgylchedd naturiol.

Mae'r ansicrwydd presennol yn y farchnad ynni a'r costau ynni uwch yn pwysleisio, fwy nac erioed, yr angen i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ar hyd a lled Cymru i leihau'r defnydd o ynni a'r costau cysylltiedig.

Fel rhan o Raglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru, mae'r Cynllun Arbed wedi bod yn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi ers 2011. Mae'r cynllun wedi cefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mae'r Cynllun Arbed hefyd wedi cyfrannu at ein hymdrechion i leihau allyriadau carbon domestig fel rhan o'r ymdrech ehangach i gyflawni sero net erbyn 2050. Mae'r gwelliannau i effeithlonrwydd ynni cartrefi a gyflawnwyd yn y flwyddyn adrodd hon wedi arbed 2.37 tunnell o garbon fesul eiddo, sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ein rhwymedigaethau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, cyflawni sero net a chreu cartrefi priodol i bobl Cymru.

Mae'r flwyddyn sy'n cael ei chwmpasu gan yr adroddiad hwn wedi bod yn dyst i heriau digynsail sydd wedi cael effaith arwyddocaol ar gyflawniadau Arbed. Gan ddefnyddio buddsoddiad o £7.8 gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop, mae'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni a sicrhawyd drwy'r cynllun wedi helpu i wella bywydau 1,032 o ddeiliaid tai, gan arbed mwy na £300 a mwy ar gyfartaledd ar filiau tanwydd domestig talwyr biliau.



**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

# BLWYDDYN 3 ARBED

Ni allai unrhyw un fod wedi rhagweld y flwyddyn yr ydym wedi'i phrofi. Ymhlith materion eraill, cyflwynwyd rhai heriau aruthrol wrth i'r gwaith barhau i gyflenwi Arbed ar hyd y pandemig Covid-19.

Er nad yw'r pandemig wedi dod i ben, mae yna rai pethau cadarnhaol y gallwn edrych yn ôl arnynt yn 2020/2021; blwyddyn lle cafodd 1,000o gartrefi yng Nghymru eu gwella gyda phecynnau effeithlonrwydd ynni a fydd yn lleihau eu costau ynni, lleihau'r allyriadau carbon o'r cartrefi hynny a pharatoi cartrefi yn well yng Nghymru ar gyfer y dyfodol di-garbon y mae angen i ni ei gyflawni.

Gan adeiladu ar y llwyddiant blaenorol yn Nwyrain Cymru, rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd eleni, gan ddefnyddio Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop i'w ddefnyddio mewn cymunedau lle mae cyfraddau tlodi tanwydd a'r angen am gartrefi ynni effeithlon yn uwch.

Rydym wedi marchnata'r cynllun yn well gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a galluogi i bawb yn ardaloedd Arbed ddefnyddio cod QR i helpu i gadarnhau cymhwysedd, fel nad oes yn rhaid i ni fynd i gartrefi nad ydym yn gallu eu helpu. Mae hyn wedi gwella profiad y defnyddiwr, ac wedi gwneud y cynllun yn fwy agored ac rwy'n gwybod bod tîm Arbed am Byth wedi gweithio'n eithriadol o galed i gyflawni hyn.

Mae Arbed am Byth wedi cyflawni 22 o gynlluniau yn 2020/2021, mewn 13 ardal Awdurdod Lleol. Rydym wedi cynnal 2,395 o asesiadau o gartrefi i drin 1,032 o gartrefi.

Fel rhan o'r gwaith a wnawn, rydym wedi darparu £24,000 a mwy o fuddsoddiad Budd Cymunedol, 527 awr o hyfforddiant ac wedi dechrau 19 prentisiaeth, gan fuddsoddi ymhellach yn y budd tymor hwy i gymunedau ar hyd a lled Cymru a sicrhau y bydd gan bobl sy'n ymuno â'r farchnad swyddi y sgiliau sydd eu hangen arnom i ddatgarboneiddio ein stoc tai a darparu hinsawdd fwy diogel i bob un ohonom.

Nid yw ein gwaith wedi'i gwblhau o bell ffordd a byddwn yn parhau i sicrhau bod deiliaid tai yn ddiogel, yn derbyn gwybodaeth ac yn gynhesach yn eu cartrefi wrth i ni barhau i gyflenwi buddiannau Arbed hyd at ddiwedd cyfnod y contract presennol. Er bod Covid-19 yn parhau, gwyddom yn awr ein bod yn gallu gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol yng nghartrefi pobl a pharhau i gyflenwi cartrefi ynni effeithlon yng Nghymru.

Diolch yn fawr.

**Crispin Jones**
Rheolwr Gyfarwyddwr
Arbed am Byth






Parc Cenedlaethol Eryri, Gwynedd

Snowdonia National Park, Gwynedd

# ARBED A COVID 19



Ar ddechrau'r pandemig Covid-19 fe wnaethom y penderfyniad na ddylai Arbed roi'r gorau i gyflenwi. Cafodd y mwyafrif o dîm Arbed eu rhoi ar ffyrlo am ychydig wythnosau, fodd bynnag, roeddem yn gwybod bod angen cymorth ar bobl yng Nghymru, a oedd yn treulio llawer mwy o amser yn eu cartrefi, cymorth y gallai Arbed ei ddarparu.Fe wnaethom fuddsoddi'n helaeth mewn protocolau gweithredu'n ddiogel a hyfforddi ein staff, ein cadwyn gyflenwi, ein cyflenwyr a'n cwsmeriaid, ar sut y gallem weithio'n ddiogel gyda'n gilydd.


Mae Arbed am Byth wedi lliniaru'r risg Covid-19 ar draws mwy na 1,000 eiddo gyda dim ond un achos lle nodwyd symptomau Covid-19 o fewn 2 wythnos i aelod o dîm Arbed weithio yn nhŷ cwsmer. Cawsant eu profi'n gyflym ac yn ffodus roedd y prawf yn negyddol.


Rydym wedi gweithio'n galed gyda'n partneriaid yn y llywodraeth i ddatblygu'r system waith ddiogel hon, gan gysylltu'n rheolaidd â chwsmeriaid i holi a oes ganddynt unrhyw symptomau, defnyddio technoleg cadw pellter gwisgadwy, creu ardaloedd diogel yng nghartrefi ein cwsmeriaid pan fyddwn yn gweithio a rhoi gwybod i gymdogion ac ymwelwyr ein bod ar y safle a bod mynediad wedi'i gyfyngu.

Rydym wedi creu fideo gwybodaeth ar y rhagofalon a'r mesurau rydym wedi'u cyflwyno i sicrhau ein bod yn gallu cadw ein cwsmeriaid a'n staff yn ddiogel yn ystod y pandemig.

Mae'r fideo hwn ar gael ar ein gwefan ac ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.









# PRIF GANLYNIADAU

Er gwaethaf blwyddyn lle mae diwydiant a gweithgarwch ar draws Cymru, y DU a'r byd wedi'u heffeithio mewn ffyrdd digynsail, mae Arbed am Byth wedi llwyddo i gwblhau 1,032 eiddo yn ystod cyfnod 2020/2021.

Mae Arbed am Byth yn falch iawn ein bod wedi cyflawni'n gyson yn ystod y cyfnod hwn ac wedi llwyddo i hwyluso newid yn gadarnhaol i lawer o ddeiliaid tai a theuluoedd agored i niwed ar draws Cymru.

ARDALOEDD AWDURDODAU LLEOL SYDD WEDI ELWA O GYNLLUN ARBED YN 2020/2021



| Awdurdod Lleol | Eiddo a Gwblhawyd yn 2020/2021 |
|---|---|
| Caerffili | 19 |
| Sir Gaerfyrddin | 12 |
| Conwy | 30 |
| Sir Ddinbych | 121 |
| Sir y Fflint | 198 |
| Ynys Môn | 157 |
| Merthyr Tudful | 89 |
| Sir Fynwy | 25 |
| Sir Benfro | 96 |
| Rhondda Cynon Taf | 93 |
| Abertawe | 7 |
| Bro Morgannwg | 150 |
| Wrecsam | 35 |

# CANLYNIADAU ALLWEDDOL AR GYFER 2020/2021

**5,050**
o fesurau wedi'u gosod mewn cartrefi

**1,032**
Eiddo wedi'u trin

**100%**
*Boddhad Cyffredinol Cwsmeriaid

**2,395**
**Asesiad Cartrefi Cyfan wedi'u cynnal

**18.93**
***Gwelliant Pwynt Perfformiad Ynni ym mhob eiddo

*Yr oedd 28% yn Fodlon Iawn a 72% yn Fodlon

**Diben yr asesiad hwn yw i gwblhau Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) a fydd yn nodi'r mesurau arbed ynni mwyaf buddiol

***Y gwelliant cyfartalog mewn sgôr perfformiad ynni (Y Weithdrefn Asesu Safonol neu SAP) ym mhob eiddo oedd 18.93 pwynt

# ARBED MEWN NIFEROEDD 2020/2021

Contractwyr Gweithredol
**13**


Cynlluniau a Gyflawnwyd yn y Flwyddyn
**22**

**39,682MJ**
Gostyngiad Cyfartalog fesul Eiddo

**£327.40**
Arbedion Ynni Blynyddol Cyfartalog fesul eiddo


**2.37t**
Gostyngiad $CO^2$ Cyfartalog fesul eiddo


# BANDIAU TPY




Mae'r mesurau a gyflwynwyd yn ystod 2020/2021 wedi cael effaith ar ynni effeithlonrwydd yr eiddo rydym wedi'u trin. Isod dangosir y bandiau Tystysgrif Perfformiad Ynni cyn ac ar ôl eu cyflwyno, sydd wedi cyflawni gwelliant cyfartalog o **18.93** pwynt SAP fesul eiddo.


Y system sgorio SAP yw'r fethodoleg a ddefnyddir gan y Llywodraeth i asesu a chymharu faint o ynni mae annedd yn ei ddefnyddio a faint o garbon deuocsid mae'n ei allyrru, yn seiliedig ar amodau deiliadaeth safonol. Dangosir y sgorau ar raddfa o rhwng 1 a 100 lle mae 100 yn cynrychioli dim cost ynni.




# DEMOGRAFFEG 2020/2021

## Rhyw
yn seiliedig ar y prif gyswllt





0% o bobl wedi cofrestru yn anneuaidd neu fod yn well ganddynt beidio dweud


## Plant
nifer y plant fesul cartref




## Oedran




## Bandiau Incwm Ymgeiswyr Unigol




*dewisodd 50% o'r ymgeiswyr beidio datgelu'r wybodaeth hon



# BUDDIANNAU CYMUNEDOL

Mae Buddiannau Cymunedol yn rhan hollbwysig o lwyddiant y cynllun Arbed yng Nghymru ac mae Arbed am Byth yn falch iawn o'r gwahaniaeth y gallwn ei wneud mewn cymunedau agored i niwed. Mae'r cyllid y mae Arbed am Byth yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn galluogi i welliannau sylweddol gael eu gwneud ar sail gymunedol yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd wedi profi lefelau uchel o amddifadedd.

Mae Arbed am Byth wedi cefnogi 12 prosiect a grŵp budd cymunedol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi bod yn hollbwysig, hyd yn oed yn fwy felly nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd heriau digynsail Covid 19.Mae'r prosiectau yn amrywio mewn maint a natur gydag enghreifftiau yn amrywio o wneud gwelliannau gwresogi sylweddol i ganolfan gymunedol yn RhCT; i offer pêl-droed i dîm lleol ym Mro Morgannwg i roddion i elusen iechyd meddwl yn Wrecsam a banc bwyd ym Mlaenau Ffestiniog.Mae Arbed am Byth wedi cyfoethogi'r ardaloedd lleol mewn ffyrdd sy'n fwy na gwelliannau i gartrefi er mwyn parhau i wneud gwahaniaeth yn y cymunedau.

Mae'r cynllun Arbed wedi creu 66 o swyddi cyflogedig ar hyd a lled Cymru. Mae'r gadwyn gyflenwi gyfan wedi'i lleoli yng Nghymru, gyda 288 o gyfleoedd cyflogaeth wedi'u creu o ganlyniad i'r contract. Hefyd, mae Arbed am Byth wedi gwneud cyfraniad hollbwysig yn lleoli 19 o brentisiaethau o fewn y gadwyn gyflenwi.



# BUDDIANNAU CYMUNEDOL




## Rhodd o £1000 i Gymdeithas Cyfeillion Castell Alun Sir y Fflint




Ar ddechrau Covid roedd prinder cyfarpar diogelu personol. Ar ôl clywed am y prinder, fe sylweddolodd grŵp o staff o ysgol Uwchradd Castell Alun y gallent ddefnyddio offer Dylunio a Thechnoleg yr ysgol i gynhyrchu amddiffynwyr wyneb ac fe wnaethant benderfynu helpu.

Ers hynny mae'r prosiect wedi mynd o nerth i nerth ac maent wedi ymuno â "Flintshire sews" ac maent yn gallu cynhyrchu amddiffynwyr wyneb, offer lleddfu pwysau i gadw'r lastig ar fasgiau wyneb oddi ar y clustiau, hetiau sgrybs, masgiau, a bagiau sgrybs erbyn hyn.

Fe wnaethant ariannu'r deunyddiau eu hunain ar y cychwyn, ond wrth i'r deunyddiau ddod i ben, fe roddodd Arbed £1000 tuag at gost y deunyddiau cynhyrchu.



Rhoddwyd yr offer i Marie Curie, Cartref Gofal Haulfryn, lloches trais domestig DASU, fferyllfa Caergwrle, cartref nyrsio Gwastad Hall, Cartref Nyrsio Asiantaeth Gofal Cartref Tŷ Chestnut, Trefnwyr Angladdau Williams a'i Feibion, Gofal Iechyd Lache Lane, Allied Healthcare Wrecsam, Home Care Matters ac Uned Arennol Wrecsam Maelor.



## Rhodd o £500 i Fanc Bwyd Blaenau Ffestiniog

Sefydlwyd banc bwyd Blaenau i ddarparu bwyd argyfwng, tymor byr i unigolion a theuluoedd mewn argyfwng. Gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn gyfrifol am y banc bwyd dros y blynyddoedd, ac ni fyddai'n bodoli hebddynt.

Mae'r parseli bwyd yn cynnwys grawnfwyd, llefrith, sudd ffrwythau, cawl, pasta, cig, pysgod, llysiau a phwdin, gan ddarparu prydau bwyd cytbwys a maethol am isafswm o dri diwrnod. Mae'r swm o fwyd a roddir yn ddibynnol ar nifer yr oedolion a'r plant yn y teulu.

Rhoddodd Arbed am Byth £500 i'r Banc Bwyd i ddarparu cymorth pellach i deuluoedd sy'n agored i niwed, gan gynnwys cynghorwyr ariannol, eu llinell gymorth Help drwy Gyni a buddsoddiadau mewn grwpiau cymunedol.

# BUDDIANNAU CYMUNEDOL



Neuadd Gymunedol Abergorci Treorci




Mae neuadd Gymunedol Abergorci yn adeilad tirnod tri llawr yn Nhreorci a'r sefydliad elusennol mwyaf yng nghymoedd Y Rhondda. Cafodd ei adeiladu gyda'r enwog "Ceiniog y Glowyr" ac yna fe'i rhoddwyd i'r Gymuned ar ôl ei gwblhau ym 1915. Mae'r neuadd wedi gwasanaethu Cymuned Treorci a thu hwnt ers 106 o flynyddoedd.

Mae Arbed am Byth wedi trefnu i gyflenwi a gosod 30 o Baneli Solar 10kW. Cytunodd contractwyr Warmplan Heating i osod y system am ddim a rhoddodd Wolseley £3800 i brynu'r system. Bydd y Paneli Solar yn lleihau'r biliau ynni yn sylweddol a bydd yn galluogi i'r arian sy'n cael ei arbed yn cael ei roi i ail-addurno'r Neuadd er mwyn cynorthwyo cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol.



# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Yn Arbed am Byth rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltiad cwsmeriaid i fusnes ac, er gwaethaf yr heriau, mae 2020/2021 wedi bod y flwyddyn fwyaf llwyddiannus eto.

Rydym wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol i ddathlu ystod eang o ddyddiau ymwybyddiaeth cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys Sul y Mamau, Diwrnod Barddoniaeth y Byd, yr Awr Ddaear yn ogystal â chynnal cystadleuaeth lliwio Dydd Gŵyl Dewi.

Yn ystod y flwyddyn mae ein tudalen Facebook wedi profi cynnydd o 65% yn y nifer sydd wedi Hoffi'r Dudalen ac rydym wedi gweld cynnydd 13 plyg yn ein Cyfanswm Cyrhaeddiad Wythnosol

Mae ein tudalen Twitter wedi gweld llwyddiannau tebyg gyda llawer mwy o Ymweliadau Proffil ac mae ein postiadau wedi cyrraedd 4 gwaith yn fwy o ffrydiau newyddion.

Ym mis Mawrth 2021 fe wnaethom lansio proffil Instagram sydd wedi'i groesawu ac rydym yn ennill mwy o ddilynwyr bob dydd.



# DAN SYLW: ASTUDIAETH ACHOS

Cwsmer: Alisha
Cynllun: Sir Benfro
Dyddiad cyflawni: Tachwedd 2020



Ysgrifennodd Alisha at Arbed ar ôl i'r system gael ei gosod yn llwyddiannus yn ei chartref ym mis Tachwedd. Mae gan ei gŵr ddementia fasgwlaidd ac mae gwaith adnewyddu blaenorol a wnaed i'r cartref wedi achosi straen iddo.

Roedd yn hapus iawn â'r ffordd y llwyddodd Arbed am Byth i reoli'r cyfarwyddiadau gyda'r contractwyr, gan gymeradwyo'r penderfyniad i 'wneud ei ystafell eistedd yn ddiogel a chyfforddus i ddechrau, cyn cwblhau gwaith ar weddill y tŷ'.

'Buont yn gweithio'n ddiflino, yn glanhau drwy'r gwaith ac oherwydd bod yr ystafell gyfforddus wedi'i blaenoriaethu, ni wnaethom sylwi ar unrhyw effaith i'n diwrnod'.

Mae'r cynnyrch terfynol wedi sicrhau bod 'hen system 24 oed anrhagweladwy wedi'i disodli gan foeler effeithlon, dibynadwy'.

## Mesurau a Dderbyniwyd:

Boeler Cyddwyso

Rheiddiaduron

Rheolaethau Gwresogi

> "Rydym yn ddiolchgar iawn ac yn barod am y gaeaf"

# DAN SYLW: ASTUDIAETH ACHOS

Cwsmer: Brenda
Cynllun: Ynys Môn
Dyddiad cyflawni: Tachwedd 2020



Cofrestrodd Brenda ar gyfer y cynllun pan oedd y pandemig Covid-19 ar ei anterth. Fel landlord, nid oedd ganddi unrhyw ddisgwyliadau y byddai unrhyw waith yn cael ei gwblhau felly roedd wrth ei bodd pan dderbyniodd ei chynnig o system wresogi newydd.

Cwblhawyd pob apwyntiad ar amser, gan gydymffurfio â'r rheoliadau Covid-19 a chafodd wybod beth fyddai'r camau nesaf ar bob cam o'r daith.

Mae ei thenantiaid yn hapus iawn gyda'r broses ac maent eisoes yn gweld y budd enfawr o gael system wresogi fwy effeithlon.

> "Mae'n llawer mwy cynnes, dwi'n ystyried symud i mewn yno fy hun!"

## Mesurau a Dderbyniwyd:

Boeler Cyddwyso

Rheiddiaduron

Rheolaethau Gwresogi

# DAN SYLW: ASTUDIAETH ACHOS

Cwsmer: Carol
Cynllun: Merthyr Tudfil
Dyddiad cyflawni: Medi 2020



Mae Carol yn fam sengl sydd wedi bod yn cael anhawster i wresogi ei chartref, ond roedd hefyd yn teimlo'n nerfus a phetrusgar iawn ynglŷn â gwneud unrhyw waith i wella'r cartref oherwydd y pandemig Covid-19, oherwydd mai Merthyr oedd yr ardal â'r nifer fwyaf o heintiau ar yr adeg gosod.

Diolchodd yn bersonol i'n haelod o'n Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid am eu hamynedd a'u dealltwriaeth wrth iddi gyflwyno ei chais.

Fe wnaethom esbonio'r broses ar bob cam o'r daith a derbyniodd gefnogaeth helaeth gan y contractwyr i bwysleisio'r dulliau gosod mwyaf diogel, a roddodd dawelwch meddwl iddi.

Roedd Carol yn hapus iawn hefyd gydag agwedd broffesiynol ac effeithlonrwydd y tîm gosod, a sicrhaodd bod yr holl reoliadau Covid-19 yn cael eu dilyn. Roedd ansawdd eu gwaith yn wych hefyd.

## Mesurau a dderbyniwyd:

Paneli Solar

Gwres Canolog

Rheolaethau Gwresogi

Inswleiddio

> "Diolch yn fawr am yr empathi a'r gwaith proffesiynol wrth osod fy mhaneli solar"



Mae enwau'r cwsmeriaid a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn wedi'u newid

arbed am byth
CYMRU


Arbed am Byth
Uned 2, Cefn Coed
Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Ffôn: 03300 414 647
www.arbedambyth.wales


UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Cartrefi Clyd
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Warm Homes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARMED FORCES COVENANT
LLUOEDD ARFOG CYFAMOD